**Syrffio'n Ddiogel**

Mae'r we yn llawn o drysorau
Mae'n grochan di-ddiwedd o ffeithiau
Gallwch ddysgu a joio
Tra'n chwilio a syrffio
Ond gwyliwch rhag credu celwyddau.

Newyddion, hysbysebion a 'ffrindiau'
Mae'n hawdd cael eich twyllo gan bethau
Nid yw wastad yn glir
Pwy sy'n ffug? Beth sy'n wir?
Cym'rwch ofal wrth ddewis gwefannau.

Gall rhannu gwybodaeth bersonol
Fel enw, cyfeiriad neu ysgol
Eich harwain i drwbwl
Yn gwbl ddifeddwl
Dangoswch eich bod chi'n gyfrifol.

Cyfrinachol yw cynnwys cyfrinair
Nid gair i'w ddyfalu mewn croesair
Dim ond chi ddylai wybod
Os oes rhif neu ebychnod
Yng nghrombil eich allwedd we, ddisglair.

Os hoffech osgoi troi yn sombi
Neu golli sawl awr methu cysgu
Diffoddwch eich sgriniau
Tabledi a ffonau
Gorffwyswch! Gwnaiff les a daioni.

Os oes rhywbeth arlein yn eich poeni
Boed yn eiriau, yn lun neu yn fwli
Byddai dweud yr holl hanes
Wrth riant / athrawes
O gymorth i wella eich byd chi.

Mae'r we yn llawn o drysorau
Ond cofiwch i ddilyn rheolau
O syrffio mewn steil
Cewch amser gwerth chweil
A hynny'n ddiogel o'r dechrau!